Y Llygoden Fach Gyfrwys

Cyfeillgarwch / Gweld Cyfle / Parch at Fywyd

Diwrnod braf o haf oedd hi. Aeth y llygoden fach am dro i'r caeau. Dechreuodd fwyta hadau'r blodau...ym...ym...ym. Yn sydyn clywodd rywun yn galw ei henw, "Llygoden fach, llygoden fach..."Trodd y llygoden fach i edrych o gwmpas. Gwelodd gath fawr frech ar ben y clawdd. Dechreuodd y llygoden fach grynu.
"Tryd yma am sgwrs," meddai'r gath, "rydw i'n teimlo'n unig iawn. Mi ydw i eisiau cwmni. Tyrd ata i i eistedd ar ben y clawdd."
"Ond cath wyt ti," meddai'r llygoden, "mi rydw i ofn cathod."
"Cath yn wir," meddai'r gath, "nid cath ydw i ond Siôn Corn ac fel y gwyddost mae Siôn Corn yn ddyn caredig iawn."
"Wyt ti'n siŵr mai Siôn Corn wyt ti?" gofynnodd y llygoden fach, "Wrth gwrs, Siôn Corn ydw i. Edrych ar fy aeliau gwyn a'r wisgars gwyn o gwmpas fy ngheg."
"Wel, os mai Siôn Corn wyt ti, mi ddof atat i gael sgwrs, ond dim ond am ychydig bach gan y bydd mam yn disgwyl amdanaf."
Y munud hwnnw dyma'r gath yn neidio ar y llygoden fach. 'Roedd ei phawen yn gorwedd drosti. Dim ond ei chynffon oedd i'w gweld.
"O" meddai'r llygoden yn grynedig, "fe ddywedaist dy fod eisiau sgwrs..."
Torrodd y gath ar draws y llygoden fach.
"Sgwrs i ddechrau ond wedyn mi fyddaf yn dy fwyta bob tamaid, ac mi fyddi di yn lygoden fach flasus."
Meddyliodd y llygoden fach a gofynnodd i'r gath, "wyt ti'n siŵr mai llygoden ydw i?"
"Wrth gwrs, llygoden fach grynedig wyt ti ond mewn dim mi fydda i wedi dy lyncu."
"Nage'n wir" meddai'r llygoden, "ci ydw i. Ci rheibus."
Doedd y gath ddim wedi gweld llygoden fel hon o'r blaen.
"Ci ydw i," meddai'r llygoden, "ac mi ydw i yn medru cyfarth a brathu."

"Gai dy glywed di'n cyfarth?" gofynnodd y gath oedd braidd yn ofnus erbyn hyn.
Dechreuodd y llygoden gyfarth fel ci.
"Na, na, na" meddai'r gath, "rwyt ti'n cyfarth fel gwich llygoden."
Bu'r llygoden yn cyfarth a chyfarth dros bob man.
"Os nad wyt ti'n credu mai ci ydw i yna mi ddoi ar dy ôl i fyny'r goeden acw" meddai'r llygoden oedd yn teimlo'n ddewr iawn erbyn hyn,
'Roedd y gath erbyn hyn yn teimlo'n fach ac yn grynedig.
"O" meddai, "mi ydw i ofn rwan."
Cododd ei phawen oddi ar gefn y llygoden fach. Dyna ei chyfle. Rhedodd nerth ei thraed i gyfeiriad y beudy. 'Roedd ei mam yn brysur yn paratoi cinio o hadau blasus i'w theulu.
"Lle'r wyt ti wedi bod, y llygoden fach ddrwg?" holodd ei mam.
"Mam, mi ydw i yn lygoden ddewr iawn a hefyd yn lygoden gyfrwys iawn."
"Cyfrwys, beth wyt ti'n ei feddwl?" holodd ei mam.
Eisteddodd y llygoden fach gyda'i theulu o gwmpas y bwrdd. Dywedodd ei hanes fel 'roedd hi wedi twyllo'r gath fawr frech.
"Wyddost ti," meddai ei mam, "dydw i ddim yn meddwl dy fod ti wedi defnyddio'r gair cywir."
"Pa air?" gofynnodd y llygoden fach.
"Wel, nid twyllo'r gath frech wnest ti ond bod yn gyfrwys a dangos i'r hen gath fawr frech dy fod tithau yr un mor gyfrwys a hithau." Gwenodd y llygoden fach.

O Dduw, pan fydda i ofn ac yn crynu wnei di bryd hynny fy helpu. Amen.

- Fyddwch chi weithiau yn dychmygu eich bod yn rywun arall?
- Disgrifiwch pa mor gyfrwys oedd y llygoden fach?
- Pwy oedd fwyaf cyfrwys y gath neu'r llygoden fach?